| Thema | Pwynt Gweithredu | Gweithgaredd (erbyn) | Deilliannau | Cyfrifoldeb Pwy? | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llety | Cwblhau asesiad anghenion ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo | 1. Penodi rheolwr prosiect (Ebr-24)<br>2. Cwblhau briff ar gyfer y gwaith (Meh-24) | Deall y galw , mapio allan y darpariaeth bresennol a thynnu ar arfer gorau fel tystiolaeth ar gyfer achosion busnes | Hedd Thomas ac Aled Davies | Ebrill 2025 | - Canlyniad y ffrwd gwaith fydd adroddiad yn dangos yr angen lleol. |
| | Datblygu llety gofal ychwanegol ar draws y sir | 1. Cynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer Penyberth, Penrhos a Frondeg, Caernarfon (Ebr-25)<br>2. Cynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer Dolgellau/De Meirionnydd (Medi-25)<br>3. Penyberth a Fron Deg yn agor (2028)<br>4. Dolgellau / De Meirionnydd yn agor (2029) | Galluogi unigolion hŷn i fyw eu bywyd gorau | Alun Williams a Carys Fon Williams | 2029 | - Nifer o welyau tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd<br>- Nifer o welyau preswyl arferol yn cael eu comisiynu mewn cartrefi preswyl. |
| | Datblygu cartrefi gofal nyrsio a dementia ar draws y sir | 1. Edrych ar yr achos busnes a phrisio opsiynau posib ar gyfer troi gwlâu preswyl yn rhai nyrsio, a'u cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd (Ebr-25)<br>2. Agor cartref nyrsio mewnol (2028)<br>3. Sicrhau fod darpariaeth ar gyfer gofal dementia yn y cartref nyrsio mewnol (2028) | Galluogi unigolion i gael gofal priodol pan fo'n angenrheidiol | Rhion Glyn ac Alun Williams | 2029 | - Nifer o wlâu nyrsio mewnol sydd yn cael eu defnyddio<br>- Nifer o wlâu dementia (EMI) mewnol sydd yn cael eu defnyddio |
| | Sefydlu cynlluniau a chyllid cyfalaf tymor canolig/hir ar gyfer datblygu cartrefi preswyl mewnol | 1. Paratoi rhaglen waith sy'n nodi beth mae'r cartrefi yn eu cynnig ar hyn o bryd, cynlluniau dros y blynyddoedd i ddod a'r gost ynghlwm a'u datblygu (Ebr-25) | Datblygu cartrefi mewnol fel bod modd darparu gofal o'r safon uchaf ac ymateb i anghenion y dyfodol. | Rhion Glyn | Ebrill 2025 | - Canran o welyau preswyl sy'n cael eu defnyddio yn ein cartrefi preswyl<br>- Nifer sy'n aros am leoliad mewn cartref preswyl |
| Atal | Mabwysiadu ac hyrwyddo gwaith ar sail cryfder a gwaith cymunedol er mwyn lleihau gorddibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol | 1. Sicrhau bod y ddogfen asesu yn adlewyrchu sgwrs Beth Sy'n Bwysig sy'n adnabod cryfderau, adnoddau personol, rhwydweithiau cefnogol anffurfiol fel sy'n cael ei hyrwyddo yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 .<br>2. Cydnabod rôl Gweithwyr Cymdeithasol fel adnodd cefnogol a bod hynny'n cael ei nodi mewn Cynllun Gofal, hyn yn deillio o egwyddorion 'Cyfathrebu Cydweithredol', gweithwyr cymdeithasol oedolion wedi derbyn hyfforddiant ar hyn.<br>3. Datblygu diwylliant/arferiad/norm ble mae gweithwyr yn rhoi ystyriaeth yn gyntaf i adnoddau cymunedol lleol, hybiau cymunedol, catalyddion cymunedol ac asiantaethau trydydd sector (ble mae'n briodol) cyn y gwasanaethau gofal traddodiadol a bod tystiolaeth o hyn. | Cynorthwyo unigolion hŷn i fyw eu bywyd gorau yn eu cymunedau lleol | Sian Edith Jones | Ebrill 2025 | - Canran o adolygiadau lle mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llwyddo i'w cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt<br>- Gwirio ansawdd asesiadau i sicrhau eu bod yn cyfarch cryfderau yr unigolyn<br>- Gwirio ansawdd asesiadau i sicrhau eu bod yn ystyried adnoddau cymunedol tu allan i wasanaethau gofal traddodiadol<br>- Lleihad mewn dibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol<br>- Cynnydd yn y defnydd o adnoddau cymunedol/trydydd sector |
| | Datblygu a hyrwyddo'r gwasanaeth TAG (Technoleg Alluoga Gofal) ymhellach, gan gynnwys defnydd blaengar o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) | 1. Llunio a chwblhau strategaeth technoleg mewn gofal (gan gynnwys defnydd AI) - (Ebr-25)<br>2. Fideo a tudalen we ayyb yn hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael (Maw- 25) | Galluogi unigolion i fyw eu bywyd gorau | Alun Williams | Ebrill 2026 | - Defnyddwyr teleofal / technoleg alluoga gofal. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Symleiddio'r systemau a chynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol | 1. Cwblhau a cychwyn defnyddio llyfryn gwybodaeth taliadau uniongyrchol a cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor ag unigolion sydd yn derbyn TU (Hyd-24)<br>2. Sicrhau tîm digonol i redeg gwasanaeth a system daliadau uniongyrchol effeithiol ac i ehangu'r gwasanaeth i'r dyfodol (Ebr-25) | I gynyddu argaeledd gofal ac i hyrwyddo annibyniaeth | Alun Williams | Ebrill 2025 | - Canran o wasanaethau gofal cartref a/neu gefnogol i Oedolion sydd yn cael eu darparu drwy Daliadau Uniongyrchol.<br>- Nifer pecynnau TU |
| | Datblygu a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth ar y cyd gydag adrannau eraill o'r Cyngor | 1. Peilota y defnydd o Dewis Cymru mewn dwy ardal yng Ngwynedd (Med-24)<br>2. Datblygu gwefan Adran Oedolion (Maw-25)<br>3. Integreiddio Dewis ar draws wefan y Cyngor (Ebr-25)<br>4. Hyrwyddo "Helpu'n Hun" yn helaeth (Ebr-25) | Cynorthwyo unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus iechyd a'u lles er mwyn eu galluogi i gynllunio ar gyfer eu heneiddio'n gadarnhaol | Alun Williams a Sioned Williams | Ebrill 2026 | - Nifer o weithgareddau, clybiau a mudiadau sy'n ymrwymo i roi gwybodaeth ar Dewis<br>- Nifer o bobl sy'n defnyddio teclyn "Helpu'n Hun" |
| | Cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i weithredu'n rhagweithiol, hyrwyddo cydberchnogaeth ac i ganfod datrysiadau ar y cyd | 1. Codi ymwybyddiaeth ymysg adrannau drwy gynnal cyfres o sesiynau "Pan wyf yn hen a pharchus" gyda'r timau rheoli (Med-24)<br>2. Edrych ar y ffordd yr ydym yn cydweithio a chomisiynu'r trydydd sector (Med-24) | 1. Lleihau'r galw am wasanaethau gofal ac i alluogi unigolion i fyw eu bywyd gorau.<br>2. Cynlluniau ar y cyd gyda'r trydydd sector i sicrhau fod Gwynedd yn oed-gyfeillgar ac yn hygyrch i bawb. | Dylan Owen | Ebrill 2026 | - Llai o alw am ofal cymdeithasol dros y blynyddoedd nesaf o'i gymharu â'r hyn ragfynegwyd yn yr adroddiad Llechen Lân. |
| | Datblygu ac ehangu cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl. | 1. Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Gofalwyr di-dâl Gwynedd | 1. Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dal<br>2. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth<br>3. Helpu gofalwyr di-dâl i fyw yn ogystal a gofalu<br>4. Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg a gwaith | Aled Davies | Ebrill 2026 | - Nifer o asesiadau gofalwyr wedi eu cynnal |
| Darparu Gofal | Sicrhau fod rheolaeth a chomisiynu effeithiol ac effeithlon o'r gwasanaethau darparu gofal | 1. Sicrhau fod ffioedd am ofal ar sail tystiolaeth wedi eu cadarnhau gyda holl ddarparwyr preswyl a nyrsio Gwynedd (Ebr-25)<br>2. Sicrhau fod y gofal cartref sydd ei angen yn cael ei gomisiynu mewn wahanol is-ardaloedd, dim mwy a dim llai. Hyn i gynnwys y ddarpariaeth fewnol ac allanol. (Ebr-25). | Gwneud y mwyaf o'r oriau gofal sydd ar gael ac i sicrhau rheolaeth ariannol effeithiol | Alun Williams | Ebrill 2026 | - Canlyniadau'r arolwg PERCY<br>- Lleihad yn y nifer o bobl sy'n aros am ofal fwy na phythefnos (o'r pwynt asesu i'r pwynt gofalwyr yn y tŷ) |
| Gweithlu | Datblygu academi gofal | 1. Lansio'r Academi Gofal a phenodi'r myfyrwyr cyntaf i'r academi (Med-24)<br>2. Sicrhau fod bod lleoliad hyfforddiant yn cael ei lenwi, a bod cynnydd blynyddol yn y cyfleon (Ebr-26) | Hyrwyddo gyrfaoedd yn y gwasanaethau cymdeithasol ac i ddenu gweithlu hyfyw | Gill Paul | Ebrill 2026 | - Nifer o unigolion sy'n mynd drwy'r academi ac yn cael gwaith â'r Cyngor |
| | Gweithredu i hyrwyddo Gwynedd fel y man gorau yng Nghymru i fyw'n ifanc | 1. Drwy'r Rhaglen ARFOR bydd y Cyngor yn cyd-weithio â Ynys Môn, Ceredigion, a Caerfyrddin er mwyn creu cyfleoedd i pobl ifanc aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid. | Lleihau'r gostyngiad parhaus ym mhoblogaeth oedran gwaith y sir.<br>Gwynedd gyfeillgar i bob oed. | Sioned Williams | 2026*<br><br>*dibynnu ar gadarnhad cyllideb y Rhaglen | Mae gan Rhaglen ARFOR ddulliau mesur sydd ar-wahân i'r Cynllun yma. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid a Llywodraethu | Sicrhau trosolwg rheolaidd a gofalus gan Gynghorwyr ac uwch swyddogion ar y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf | 1. Llunio cynllun gweithredu clir ar gyfer y rhaglen waith Llechen Lân, gyda mesurau ac amserlenni (Med-24)<br>2. Gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Cynllun gweithredu yn ffurfiol a chytuno ar strwythurau trosolwg (Rhag-24)<br>3. Diweddaru'r adroddiad pan fydd data newydd ar gael a'i ail-gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth (parhaus) | Cadw golwg ar gynnydd a pherfformiad yn erbyn y mesurau | Dylan Owen | 2029 | - Adroddiad ar gynnydd rheolaidd i'r Aelod Cabinet. |
| | Cynyddu'r ymwybyddiaeth wleidyddol o'r heriau ymarferol ac ariannol, drwy wleidyddion lleol a chenedlaethol | 1. Llunio Cynllun Cyfathrebu ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi erthygl yn Barn a 'The Welsh Agenda' (Rhag-24) | Codi ymwybyddiaeth o'r angen am feddwl yn wahanol, adnoddau a dulliau cyllido hir-dymor (yn hytrach na thrwy nawdd tymor byr a grantiau) | Dylan Owen | Ebrill 2025 | Dim yn berthnasol ond yr amcan yw codi ymwybyddiaeth o'r her yn wleidyddol. |
| | Datblygu cynlluniau cyllidol ar gyfer y degawdau nesaf ar sail yr ymchwil hwn ac ar gyfer sicrwydd ariannol y dyfodol i'r Cyngor. | 1. Monitro'r galw am wasanaeth a'r effaith caiff y newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaeth (parhaus) | Rhoi sicrwydd ariannol i'r Cyngor wrth edrych at y dyfodol. | Dewi Morgan, Dafydd Gibbard a Dylan Owen | Ebrill 2026 | - Cyllideb wedi ei seilio ar dystiolaeth a'r dystiolaeth honno yn gyhoeddus yn dilyn arddull Llechen Lân. |